**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Education and Life-Long Learning Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

The National Assembly for Wales

Gwenda Thomas AC

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Bae Caerdydd / Cardiff Bay

Caerdydd / Cardiff

CF99 1NA

Dyddiad: 27 Chwefror 2001

Date: 27 February 2001

**Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Blaenraglen Waith Strategol**

Yn ei gyfarfod ddydd Mercher 15 Chwefror, ystyriodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes flaenraglen waith strategol y pwyllgorau pwnc eraill.

Mae gan y Pwyllgor Addysg ddiddordeb cyffredinol ym mater amddifadedd cymdeithasol, gan ei fod yn ymwneud â’r holl agweddau o addysg yng Nghymru, gan gynnwys dysgu gydol oes, ac ehangu’r cyfle i gael mynediad at addysg. Mae hefyd wedi gofyn i mi gofrestru’r diddordeb hwn gyda’ch Pwyllgor gan gyfeirio’n benodol at eich trafodaethau ar ‘Rhoi Cymunedau’n Gyntaf’. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn ystyried materion sy’n ymwneud â’r Gronfa Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc sydd yn arbennig o berthnasol i fater triwantiaeth a than-gyrhaeddiad mewn ysgolion.

Nododd y Pwyllgor hefyd bod eich Pwyllgor i gael cyflwyniad oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ‘bwysau’. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried caniatáu i’r Pwyllgor Addysg enwebu aelod i ymuno â chi ar gyfer y cyfryw drafodaeth. Mae’r Pwyllgor wedi mynegi ei bryder ynghylch gallu Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru i gyflawni ei nodau addysgol oherwydd y problemau trefniadaethol a gafodd. O’r herwydd, byddai’r Pwyllgor Addysg yn falch o dderbyn copi o’r adroddiad a baratowyd gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru y cyfeirir ato yn eich rhaglen.

Rwyf wedi gofyn i’r Clerc gysylltu â Martin Stevenson ar y materion hyn.

**Cynog Dafis**

Cadeirydd